Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 25 Mawrth 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Maer), Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Emrys Wynne ac Ifan Wyn.

MR DAFYDD WILLIAMS
Gofynnodd y Maer i'r aelodau sefyllfa am funud o dawelwch er cof am gyn Glerc y Dref, Mr Dafydd Williams, a fu farw'n sydyn ar 11 Mawrth. Hysbysodd y Cyngor y byddai ei angladd yn cael ei gynnal ddydd Iau, 28 Mawrth am 2pm yng Nghapel Bathafarn, Stryd y Farchnad.

210. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

211. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN
Croesawodd y Maer Sarjant Martin Jones i'r cyfarfod. Rhoddodd gyflwyniad, gan gyfeirio at y nifer fawr o siediau y bu dwyn ohonynt yn ddiweddar. Dywedodd eu bod yn casglu tystiolaeth ac y byddent yn gweithredu warantau'n fuan. Adroddodd y bu cynnydd yn y defnydd o gyffuriau hamdden hefyd. Anogodd yr aelodau i ddefnyddio'r cyfrwng hysbysu am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau ar-lein. Gellir defnyddio'r adnodd hwn ar unwaith, yn hytrach nag aros am ateb i alwad 101. Holodd aelod am gyswllt yr heddlu gydag ysgolion. Esboniodd Sarjant Jones bod ganddynt Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn yr heddlu sy'n mynd i mewn i ysgolion yn rheolaidd i gyflwyno agweddau'r cwricwlwm, ond nad yw'r heddlu cymunedol yn mynd i'r ysgolion yn rheolaidd mwyach.

212. DATGAN BUDDIANNAU
Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

213. ADRODDIAD Y MAER
Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.
25.02 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
28.02 Taith i ffowndri Taylor's yn Loughborough i weld clychau Eglwys Sant Pedr yn cael eu hatgyweirio
11.03 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
22.03 Dawns Elusennol Maer Llanelwy
Dywedodd y Maer mai'r ymweliad â'r ffowndri glychau yn Loughborough fu un o'i uchafbwyntiau eleni hyd yma, ac atgoffodd yr aelodau yr estynnwyd gwahoddiad i bawb i wasanaeth arbennig cysegru'r clychau i'w gynnal yn Eglwys Sant Pedr ddydd Sul, 31 Mawrth am 10.30am.

214. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Cyfarfod gyda Lise Roberts, Helfa Gelf ynghylch yr Hen Lys, cyfarfod gyda Mark Allen Beicio Cymru, sesiwn Tîm Tref Taclus, ymweliad Taro'r Post, Radio Cymru â'r Hen Lys, cyfweliad gan Rob Shelley, ITV Wales, ynghylch yr Hen Lys, dau gyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, perfformiad 'Beauty and the Beast' Cymdeithas Pantomeim Rhuthun, rasus crempogau yn Sgwâr Sant Pedr a chasglu hen fecanwaith y cloc i'w storio yn yr Hen Lys
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Rasus crempogau yn Sgwâr Sant Pedr
Cyng. Stephen Beach	
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Sioe Rhuthun a chyfarfod Pwyllgor sioe Rhuthun, dau gyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, dau gyfarfod Gweithgor

	yr Hen Lys, beirniadu cystadleuaeth addurno ffenestri siopau Dinbych ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ar ran Menter Iaith Dinbych a Dawns Elusennol Maer Llanelwy
Cyng. Ken Hawkins	Rasus crempogau yn Sgwâr Sant Pedr
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	Rasus crempogau yn Sgwâr Sant Pedr, ymweliad drwy'r bore ag Ysgol Pen Barras ac Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynhyfryd
Cyng. Jabez Oakes	Hyfforddiant Gorfodaeth Cynllunio yn Llangollen
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd
Cyng. Anne Roberts	Dau gyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch – Drysau Agored, ymweliad â'r Hen Lys gyda Chymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a sesiwn Ymlaen Rhuthun i ddewis 'Llys' y Carnifal yng Nghastell Rhuthun
Cyng. Dave Snape	Rasus crempogau yn Sgwâr Sant Pedr
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, ymweliad â'r Hen Lys gyda Chymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a chydgysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch dyfarniad y Statws Croesawu Bysiau Moethus i Rhuthun
Cyng. Ifan Wyn	
Cyng. Emrys Wynne	Ymweld â Chae Ddôl i weld yr Afon Clwyd a'r hen Bont Garreg, ymweliad ag uned farchnata Taylor Wimpey, Parc Glasdir a diwrnod agored i lywodraethwyr yn Ysgol Borthyn

Cyfeiriodd y Cynghorydd Oakes ei fod wedi bod mewn cyfarfod Gwylio Tafarndai Rhuthun a gwnaed cais iddo gynrychioli Cyngor Tref Rhuthun ar y grŵp. Roedd yr aelodau o blaid a **PHENDERFYNWYD** mai'r Cynghorydd Oakes fyddai cynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun yn y cyfarfodydd Gwylio Tafarndai Rhuthun.

215. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Esboniodd y Cynghorydd Emrys Wynne ei fod yn cyflwyno'r adroddiad, a oedd yn cwmpasu gweithgareddau'r tri aelod yn cynrychioli ward Rhuthun. Esboniodd y bu problemau gydag agor y ddogfen a anfonwyd at y Clerc, ac y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn ffurf ysgrifenedig o hyn ymlaen. Cyfeiriodd at y paratoadau ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Lleol nesaf Sir Ddinbych, gwaith ffyrdd cynlluniedig yn ardal Rhuthun, yn cynnwys y B5105 i Fontuchel, yn enwedig y rhan rhwng Ffordd Cerrig a Telpyn. Dywedodd y byddai'r ffyrdd yn ystad dai Glasdir yn cael eu mabwysiadu unwaith y bo'r gwaith datblygu wedi'i gwblhau. Cyfeiriodd hefyd at benderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu i wrthod rhoi trwydded gwerthu alcohol 24 awr y dydd i orsaf betrol Heol y Parc. Roedd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts yn bresennol yn y cyfarfod yn y Rhyl lle bu'r Cynghorydd Hilditch-Roberts yn siarad ar ran trigolion Heol y Parc a gwrthwynebwyr eraill.

216. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2019 yn gywir.*

217. MATERION YN CODI

Darllenodd y Clerc lythyrau diolch gan Ambiwlans Awyr Cymru ac Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen am y cyfraniad o £200 yr un iddynt gan Gyngor Tref Rhuthun.

218. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019.*

219. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019.*

220. ENWEBIADAU MAER A DIRPRWY FAER

Gofynnwyd i'r aelodau enwebu ar gyfer swydd y Maer yn ystod blwyddyn ddinesig 2019-20. Cynigiodd y Cynghorydd Anne Roberts y Dirprwy Faer cyfredol, y Cynghorydd Gavin Harris, fel Maer ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Robert Owen-Ellis. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill ac roedd yr aelodau o blaid yr enwebiad. Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd y Dirprwy Faer. Enwebodd y Cynghorydd Stephen Beach y Cynghorydd Anne Roberts, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jim Bryan. Cynigiwyd enw'r Cynghorydd Heather Williams gan y Cynghorydd Emrys Wynne a'i eilio gan y Cynghorydd Ifan Wyn. Ar y pwynt yma gofynnodd y Cynghorydd Anne Roberts i'w henwebiad hi gael ei dynnu yn ôl, a diolchodd y Cynghorydd Wynne iddi am weithred mor haelfrydig. Pleidleisiodd yr aelodau o blaid enwebiad y Cynghorydd Heather Williams fel Dirprwy Faer.
***PENDERFYNWYD**: mai'r enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer ym mlwyddyn ddinesig 2019-20 fydd y Cynghorydd Gavin Harris a'r Cynghorydd Heather Williams yn ôl eu trefn.*

221. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL – CYNNIG A MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dau gais am gymorth ariannol. Roedd y cyntaf gan Cynnig, cwmni nid er elw â dibenion elusennol yn gofyn am £1,000 tuag at gost llogi bysiau mini ar gyfer teithiau cerdded a thripiau diwrnod ar y penwythnosau gyda'u defnyddwyr bregus. Roedd yr ail yn gais am £959 gan Fenter Iaith Sir Ddinbych, yn cynrychioli 35% o gostau digwyddiadau a gweithgareddau a ddarparwyd i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn Rhuthun. Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn gwybod digon am Cynnig fel sefydliad a'r hyn mae'n ei gynnig, ac awgrymwyd gwahodd cynrychiolydd i ddod i'r cyfarfod nesaf i roi cyflwyniad cryno ac ateb cwestiynau'r aelodau. Cynigiwyd gwahodd y ddau fudiad i'r cyfarfod nesaf.
***PENDERFYNWYD**: gwahodd cynrychiolydd o Cynnig a Menter Iaith Sir Ddinbych i roi cyflwyniad cryno ynghylch eu gweithgareddau i'r cyfarfod nesaf.*

222. DIWEDDARIAD YNGHYLCH STATWS RHUTHUN FEL TREF SY'N CROESAWU BYSIAU MOETHUS

Cadarnhaodd y Cynghorydd Heather Williams, aelod arweiniol y gweithgor Statws Croesawu Bysiau Moethus, bod Rhuthun wedi ennill y statws hwn, y dref gyntaf yn Sir Ddinbych i sicrhau'r dyfarniad. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyddiad cyfleus ar gyfer cyflwyno'r dystysgrif ac awgrymwyd cynnal y cyflwyniad yng Nghanolfan Grefft Rhuthun ddydd Iau, 25 Ebrill, gyda lluniaeth ysgafn gan Café R, fel rhan o wythnos Dyfodol Rhuthun.
***PENDERFYNWYD**: cysylltu gyda swyddogion CPT i weld a fyddai 25 Ebrill yn ddyddiad cyfleus iddynt i gyflwyno'r dystysgrif.*

223. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Cyflwynodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad ynghylch y ceisiadau grant a gyflwynwyd hyd yma, a'r bwriad i dynnu'r sgrîn a'r hyn oedd yn amgáu'r 'safe' nos a'r peiriant twll yn y wal blaenorol. Cyfeiriodd at y bwriad i gynnal wythnos Dyfodol Rhuthun rhwng 22 a 28 Ebrill, gyda ffotomarathon unwaith eto a diwrnodau agored yn yr Hen Lys ar 27 a 28 Ebrill rhwng 10am a 4pm, yr amseroedd y bydd y cyfleuster ar agor i'r cyhoedd unwaith y bo'r gwaith adnewyddu wedi'i orffen.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad.*

224. DIWEDDARIAD YNGHYLCH DYFODOL RHUTHUN – SGWÂR SANT PEDR

Cyflwynwyd diweddariad yn dilyn cyfarfod rhwng Ben Wilcox-Jones o Gyngor Sir Ddinbych, Andrew Sumner of Richards Moorhead and Laing, Mr Huw Thelwall Davies a'r Cynghorwyr Gavin Harris ac Emrys Wynne. Roeddynt wedi ystyried cael man i fysiau moethus ollwng teithwyr o flaen yr Hen Lys, a mannau parcio parallel ar ochr yr adeilad lle mae'r drws cefn, gyda'r potensial

ar gyfer soced gwefru ceir trydan. Roedd Ben Wilcox-Jones wedi cynnig cynnal dadansoddi llwybr symudiadau cerbydau ar gyfer y gwahanol gynigion cyn cyfarfod nesaf y gweithgor ymhen mis.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

225. DIWEDDARIAD YNGHYLCH TÎM TREF RHUTHUN

Cyflwynwyd diweddariad gan y Cynghorydd Gavin Harris, yn nodi bod oddeutu 40 o bobl wedi dod i gyfarfod Tîm y Dref yn yr Hen Lys. Mynegodd y Cynghorydd Anne Roberts bryder bod hyn i ddod o dan ofal Cyngor Tref Rhuthun. Bu'r aelodau'n trafod hyn, ac roeddynt o blaid sefydlu fforwm cyfathrebu ar gyfer grwpiau a mudiadau'r dref, yn hytrach na thîm i gyflawni prosiectau. Cynigiwyd ystyried hyn yn fanylach a'i drafod fel eitem agenda yn y cyfarfod nesaf.
PENDERFYNWYD*: trafod y cynnig i sefydlu Fforwm Cyfathrebu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.*

226. PENODI DIRPRWY GLERC / RHEOLWR CANOLBWYNT YR HEN LYS

Gofynnwyd i'r aelod ystyried pryd a lle i hysbysebu'r swydd. Awgrymodd yr aelodau y dylai ymddangos yn Y Bedol, ar wefan recriwtio Indeed a'r cyfryngau cymdeithasol. Byddai aelodau'r Pwyllgor Staffio yn gyfrifol am lunio rhestr fel a chyfweld ymgeiswyr.
PENDERFYNWYD: *trefnu hysbysebu'r swydd a rhoi'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais ar wefan Cyngor Tref Rhuthun.*

227. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018-19

Roedd y Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19 gan JDH Business Services wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Y ffi ar gyfer archwiliad 2018/19 fyddai £2789.80 + TAW.
PENDERFYNWYD: *derbyn yr hysbysiad am y Cynllun Archwilio Mewnol a nodi'r ffi ar gyfer archwiliad 2018/19.*

228. GWASANAETHAU CYFLOGRES A CHYFRIFYDDU AR RAN CYNGOR TREF RHUTHUN

Hysbyswyd yr aelodau bod y Clerc wedi cysylltu gyda chwe chwmni cyfrifyddu lleol i'w gwahodd i gyflwyno dyfynbris am ddarparu gwasanaethau cyflogres a chyfrifyddu i Gyngor Tref Rhuthun. Roedd dau wedi ymateb a gofynnwyd i'r aelodau ystyried y prisiau. Cynigiwyd derbyn y pris a gyflwynwyd gan Gyfrifwyr Siartredig Hill & Roberts. Pleidleisiodd yr aelodau o blaid hyn, gydag un yn atal ei bleidlais.
PENDERFYNWYD*: derbyn y dyfynbris am wasanaethau Cyflogres a Chyfrifyddu gan Gyfrifwyr Siartredig Hill & Roberts am £840 + TAW, i'w dalu'n fisol neu'n chwarterol.*

229. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2019.
PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2019.*

230. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100119	Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy	Cyfraniad i Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019		£200.00
100120	Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen	Cyfraniad i Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen		£200.00
100121	Ambiwlans Awyr Cymru	Cyfraniad i Ambiwlans Awyr Cymru		£200.00
100122	Cymorth Cynllunio Cymru	Ffi sesiwn hyfforddiant gorfodaeth cynllunio 13 Mawrth 2019 yn Llangollen fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu		£35.00
100123	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Mawrth 2019		£176.13
100124	Viking	100 o stampiau ail ddosbarth	*	£63.51

100125	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£295.55
100126	Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu ar y pryd – Mawrth	*	£180.00
100127	Pawle & Co. Ltd	Cabinet diffibrilydd nad yw'n cloi	*	£402.00
100128	Walsh Trophies	Engrafu'r cwpanau arddangosfeydd blodau		£8.00
100129	Urdd Gobaith Cymru	Ail ran-daliad cyfraniad nawdd Cyngor Tref Rhuthun i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020		£3,500.00
100130	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn y cyfarfod chwarterol, 26.04.19		£32.00
100131	Dŵr Cymru Welsh Water	Gwasanaethau i'r Hen Lys, 20.02.19 – 20.03.19		£42.37
100333	Gwasanaethau Coed Cymru	Tocio'r coed ar Sgwâr Sant Pedr	*	£390.00

231. NEUADD Y DREF, RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y gwahoddiad i anfon dau gynrychiolydd i gyfarfod gyda swyddogion ac aelodau etholedig lleol Cyngor Sir Ddinbych i drafod defnydd Neuadd y Dref yn y dyfodol. Enwebwyd y Cynghorwyr Menna Jones a Heather Williams i fynd i'r cyfarfod ddydd Gwener, 5 Ebrill 2019 am 2pm.

PENDERFYNWYD*: y byddai'r Cynghorwyr Menna Jones a Heather Williams yn cynrychioli'r Cyngor Tref mewn cyfarfodydd ynghylch dyfodol Neuadd y Dref. Gan nad oedd y Cynghorydd Williams yn medru mynd ar 5 Ebrill, cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Harris yn dirprwyo ar ei rhan yn y cyfarfod cyntaf.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd trafod yr eitem a ganlyn yn breifat. Gadawodd y Clerc y cyfarfod ar y pwynt yma.

232. CYFLOG CLERC Y DREF

Rhannwyd manylion am gyflog a chostau teithio a hawliwyd gan Glerc y Dref am y cyfnod Hydref 2018 i Fawrth 2019.

PENDERFYNWYD*: derbyn y manylion ac awdurdodi talu'r £15.70 o gyflog yn ddyledus a £16.20 o gostau teithio.*

233. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Fawrth, 23 Ebrill 2019 am 7.00pm.*